Ms Val Lloyd AC (Cadeirydd), Mr Mike German AC,
Mr Andrew R T Davies AC, a Ms Bethan Jenkins AC
Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Hydref 2009

Annwyl Aelodau o'r Pwyllgor Deisebau,

Mae'n bleser gennym gyflwyno i chi'r ffurflenni deiseb wedi eu harwyddo sydd yn amgaeedig, yn ymwneud â chreu Academi Heddwch Cymru. Llofnododd cyfanswm o 1,525 o bobl y ffurflenni hyn yn ystod Awst a Medi eleni, yn cefnogi'r datganiad canlynol:

***"Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibiliadau a'r ymarferoldeb o gael Academi Heddwch yng Nghymru yn ymwneud â Heddwch a Hawliau Dynol, un sydd yn gyffelyb i'r rhai a gefnogir gan lywodraethau gwledydd Fflandrys, Catalwnia ac eraill yn Ewrop."***

Gofynnwn i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb, a'i drosglwyddo i'r Gweinidog addas yn Llywodraeth y Cynulliad i'w weithredu. Gofynnwn hefyd bod pob un o'r 60 Aelod etholedig o'r Cynulliad yn derbyn copi o'r ddogfen amgaeedig, sydd yn esbonio'r cefndir i'r pwnc yma ac yn disgrifio sefydliadau cyffelyb sydd yn bodoli yng ngwledydd eraill.

I danlinellu natur ymarferol yr hyn sydd yn cael ei gynnig ac i esbonio ein cynlluniau ymhellach, byddem yn ddiolchgar am y cyfle i osod fwy o dystiolaeth ger bron y corff o'r Cynulliad yr ydych chi yn ei ystyried yr un fwyaf addas i'w dderbyn. Teimlwn y byddai'n ddefnyddiol pryd hynny hefyd i glywed fwy am un o'r mudiadau yn Ewrop sydd yn weithredol eisoes – y Sefydliad Heddwch yn Fflandrys, er enghraifft, gan fod cysylltiadau gennym gyda hwythau.

Yr eiddoch yn gywir iawn

Stephen Thomas

Ar ran y mudiadau canlynol:

Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Cymdeithas y Cymod

Cynefin y Werin

CND Cymru

# Cynnig ar gyfer Academi Heddwch Cymru

**Mae sefydliadau heddwch yn bodoli mewn nifer o wledydd – ers degawdau yn achos amryw ohonynt. Mae rhai yn sefydliadau lled-lywodraethol, eraill yn hollol annibynnol – ond mae elfennau o'r ddau yn y mwyafrif ohonynt. Mae'r amlinelliad byr hwn yn dangos eu hamryw gyfansoddiadau a gweithgareddau.**

### Fflandrys

Mae'r *Vlaams Vredesinstituut* yn cynnal ymchwil gwyddonol ar faterion heddwch ac, ar sail yr ymchwil hwn, yn cynghori Senedd a Llywodraeth Fflandrys. Er yn annibynnol, caiff ei gynnal gan Lywodraeth Fflandrys – sydd wedi'i rhwymo'n gyfansoddiadol i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddi gan y sefydliad heddwch. Mae'r sefydliad yn cyflogi rhyw 4-5 o staff ymchwil llawn-amser ac, os yn briodol, gall gomisiynu prosiectau ymchwil o sefydliadau eraill (gan gynnwys rhai yn y DU).

### Catalonia

Crëwyd yr *Institut Català Internacional per la Pau* (ICIP) yn 2007 fel corff sefydliadol cyhoeddus o fewn adran o'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am heddwch! Mae ICIP yn bodoli'n unswydd i gynnal ymchwil heddwch, i hyfforddi, ac i arsylwi, cyfyngu a thrawsnewid gwrthdaro, gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant o heddwch o fewn cymdeithas Catalonia ac yn rhyngwladol, ac i sicrhau bod Catalonia ei hun yn weithredol o ran hyrwyddo heddwch.



### Norwy

Mae'r *International Peace Research Institute, Oslo* (**PRIO**) yn gorff annibynnol a rhyngwladol sy'n cynnal ymchwil academaidd sy'n berthnasol i hyrwyddo byd mwy heddychlon. Mae ganddo dros 60 o staff llawn-amser, gyda dros 80% o'r rheiny yn ymchwilwyr. Yn wahanol i sefydliad Fflandrys, nid oes ganddo ddyletswyddau statudol o ran polisïau neu weithredoedd y llywodraeth ac mae'n dibynnu'n llwyr ar gyllid allanol.

### Y Ffindir

Mae'r *Ålands fredsinstitut* hefyd yn cynnal ymchwil ar faterion heddwch a gwrthdaro, ond yn canolbwyntio ar ddiogeledd, ymreolaeth a lleiafrifoedd, dadfilwroli a rheoli gwrthdaro. Fe'i sefydlwyd yn 1992 fel sefydliad elusennol annibynnol ac mae ganddo statws ymgynghorol gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig (ECOSOC).

### Iwerddon

Mae *Irish Peace Institute* (**IPI**) yn fudiad seiliedig ar addysg sy'n hyrwyddo heddwch trwy hyfforddiant a mentrau meithrin gallu ar lefel llawr gwlad – o fewn Iwerddon ac yn rhyngwladol – gyda hanes o gynnig cymorth ymarferol ar y materion hyn. Mae ganddo gefnogaeth y llywodraeth ar gyfer ei seminarau clodfawr a gweithgareddau eraill, ac ymddengys ei fod yn dibynnu ar incwm o'r digwyddiadau hyn a rhoddion unigol fel ffynonellau cyllid.

### Yr Almaen – Frankfurt

Crëwyd *Hessische Stiftung Friedens-und Konfliktforschung* (**HSFK**) yn 1970 gan lywodraeth talaith Hesse fel sefydliad annibynnol. Mae ei waith yn canolbwyntio ar achosion gwrthdaro treisgar rhyngwladol a mewnol; ymchwilio a hyrwyddo amodau ar gyfer heddwch. Mae cyfansoddiad y sefydliad yn gwarantu ei ryddid academaidd a, gyda dros 60 o staff, hwn yw sefydliad ymchwil heddwch mwyaf a hynaf yr Almaen.

### Yr Almaen – Bonn

Mae'r *Bonn International Center for Conversion* (**BICC**), a sefydlwyd gyda chefnogaeth talaith Gogledd Rhine-Westphalia, 'yn bodoli'n unswydd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso heddwch a datblygiad'. Mae'r ymchwil a gynhelir yn BICC yn llai academaidd na hwnnw mewn sefydliadau eraill, ac mae'n fwy iwtilitaraidd o ran arnewid arfau a materion eraill. Ariennir y ganolfan gan gwmnïau sydd â diddordeb eang mewn arnewid arfau a lleihau tlodi, asiantaethau a sefydliadau rhyngwladol eraill.

### Y Tu Hwnt i Ewrop

Ceir sawl sefydliad heddwch o fewn yr UDA – California, Washington, Oregon ac eraill. Ymddengys mai sefydliadau a oedd yn ddibynnol ar unigolion cyfoethog oedd y mwyafrif ohonynt i gychwyn. Maent i gyd yn rhannu pryder o ran addysg ac adnoddau ar gyfer heddwch a datrys gwrthdaro trwy ddulliau di-drais mewn cyd-destunau unigol, cymunedol, cenedlaethol, byd-eang ac amgylcheddol. Ceir hefyd sefydliadau heddwch yn Asia a llefydd eraill sydd ag amrediad tebyg o ddiddordebau a phryderon.

### Nodweddion Cyffredin

Mae bron pob sefydliad heddwch yn ymchwilio i heddwch a phynciau perthnasol eraill. Yn dibynnu ar gymhareb yr ymchwil academaidd i'r ymchwil a gomisiynir, gall y pynciau ymwneud ag unrhyw beth o ddatrys gwrthdaro i arnewid arfau – gyda nifer o amrywiaethau ar hyd y ffordd (gyda rhai o'r rhain o bosib yn ymylu ar fod yn berthnasol i Gymru).

Crëwyd mwyafrif y sefydliadau heddwch gan 'lywodraethau'r wladwriaeth' (tebyg i'n Cynulliad Cenedlaethol ni) neu, fel yn yr UDA, trwy gymwynaswyr cyfoethog i ddechrau, ond gyda'r mwyafrif yn hunan-gyllidol erbyn hyn (gan ddibynnu'n bennaf ar ymchwil a gomisiynir). Maent i gyd bellach yn mwynhau annibyniaeth academaidd a werthfawrogir ac a warentir gan y cyrff sy'n eu cefnogi'n ariannol.

Nid oes llawer o amrywiaeth yn strwythurau'r sefydliadau hyn – gyda phob un yn gweithredu o dan rhyw fath o Fwrdd Ymgynghorol neu Ymddiriedolwyr, neu ryw fath o gyfuniad o'r 'mawreddog a'r da a'r academaidd' sy'n goruchwylio Adran Weithredol o 'bobl sy'n gwneud'. Mae gan rhai strwythur lled-ddemocrataidd seiliedig ar aelodau, ond mae'r mwyafrif yn gweithredu o'r brig i lawr trwy dîm rheoli penodedig.

Mae dylanwad a statws y cyrff hyn yn dibynnu ar ansawdd yr ymchwil – sy'n gallu cyfateb i'r incwm a dderbynnir am waith o'r fath. Gan fod modd i beth ymchwil fod yn ddefnyddiol i fusnesau yn ogystal ag i actifyddion heddwch, gall y cymhelliant ymwneud cymaint ag adenillion masnachol â'r angen i gynorthwyo materion heddwch a datrys gwrthdaro.

Er taw sefydliad y Fflandrys yw'r unig un sydd ag ymrwymiad statudol i roi sylwadau ar weithredoedd llywodraethol, yn arbennig felly o ran creu a gwerthu cynnyrch deuol-bwrpas a militaraidd, mae gan bob un rhyw fath o fewnbwn o ran addysg a hyfforddiant a byddai'n hollol gyfiawn iddynt hawlio eu bod wedi cynorthwyo i liwio barn gyhoeddus a dylanwadu ar benderfyniadau llywodraethol.



### Cymru

Er bod ein hanes a'n diwylliant yn awgrymu y byddai Academi Heddwch yn canfod ei le yn weddol ddi-drafferth, nid oes gan Gymru gorff o'r fath ar hyn o bryd. Er na restrir 'heddwch' na 'datrys gwrthdaro' fel amcanion statudol ein Cynulliad Cenedlaethol (yn wahanol i 'gynaladwyedd'), mae gan y cysyniadau gefnogaeth eang ac mae llawer eisoes yn rhagdybio eu bod yn rhai o amcanion y Cynulliad sy'n bodoli ond heb eu datgan.

Yr awyrgylch cytûn hwn yw'r rheswm pam ein bod yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cytuno i estyn cymorth i sefydlu Academi Heddwch – penderfyniad sy'n debyg i, ac yn gyson â'i benderfyniad i sefydlu Cynnal Cymru ar gyfer cynaladwyedd ond, yn yr achos hwn, y nôd fydd i ganolbwyntio sylw ar heddwch. Fodd bynnag, am fod angen i'r corff hwn fod yn annibynnol ac yn amhleidiol, nid ydym yn argymell bod Academi Heddwch Cymru yn dod yn fudiad lled-lywodraethol (fel sydd wedi digwydd mewn gwledydd eraill).

Rydym yn rhagweld y bydd unrhyw amheuon am Academi Heddwch yn ymwneud mwy ag ariannu'r corff na'r egwyddorion sydd ynghlwm ag ef. Yn hytrach na bod yn rhagnodol yn y cyfnod cynnar hwn, awgrymwn fod hwn yn fanylyn i'w drafod ar ôl sefydlu'r egwyddor.

---

**Cyfeirnodau** (i ddetholiad o sefydliadau heddwch eraill)

Fflandrys: www.flemishpeaceinstitute.eu
Catalonia: www.gencat.cat/index_eng.htm
Norwy, Oslo: www.prio.no
Y Ffindyr, Åland: www.peace.ax/index.php?lang=en
Iwerddon: www.irishpeaceinstitute.org
Yr Almaen, Frankfurt: www.prif.org
Yr Almaen, Bonn: www.bicc.de
UDA, Oregon: www.orpeace.us
UDA, California: www.praxispeace.org
UDA, Washington: www.fundforpeace.org
UDA, IN: www.indianapolispeaceinstitute.org
Sweden, Stockholm,: www.sipri.org
Sweden (Christian): www.life-peace.org
Y Ffindir, Tampere: www.uta.fi/tapri/eindex.html
Slofenia: www2.mirovni-institut.sie index.htm
Bradford, Lloegr: www.brad.ac.uk/acad/peace/
Canada: http://www.peace.ca
UDA, Einstein: www.aeinstein.org
UDA: Institute of Peace: www.usip.org
Japan, Toda Institute: www.toda.org
Hiroshima: http://serv.peace.hiroshima-cu.ac.jp
India, Astudiaethau Heddwch a Gwrthdaro: www.ipcs.org
Rhyngwladol (CU): www.ipacademy.org

## CYNIGION AMLINELLOL – ar gyfer Academi Heddwch Cymru

- ✔ Perthynas gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu gwerthusiad annibynnol o effeithiau posibl ei weithgarwch a'i benderfyniadau o ran cynnal heddwch a hawliau dynol.
- ✔ Archwilio'r effaith a gaiff penderfyniadau polisi amddiffyn a thramor ar Gymru – er enghraifft, hyfforddi milwyr tramor a allai fod yn ymwneud â chamdrin hawliau dynol.
- ✔ Cyfeir-bwynt ac adnoddau ar gyfer pobl a mudiadau yn darparu gwybodaeth am heddwch, diarfogi, datrys gwrthdaro a materion hawliau dynol gyda sianelau i ganiatáu ymholiadau i'r fasnach arfau, hawliau dynol, diarfogi niwclear, cynnal y Cytundeb Heddwch Rhyngwladol, ac ati.
- ✔ Perthynas uniongyrchol â chyrff anllywodraethol, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, sefydliadau ac academïau heddwch eraill, a rhwydweithiau â mudiadau tebyg sy'n cyfrannu at wybodaeth ryngwladol am hyrwyddo heddwch a gweithgarwch ar gyfer hyrwyddo heddwch.
- ✔ Bydd rhyddid academaidd yn angenrheidiol er mwyn i'r Acdemi weithredu'n annibynnol fel awdurdod amhleidiol ar faterion heddwch.
- ✔ Darpariaeth addysgol o ran astudiaethau heddwch, datrys gwrthdaro trwy ddulliau di-drais, ymwybyddiaeth o hawliau dynol; creu perthnasau rhyngwladol trwy gyswllt diwylliannol, cytundebau cydweithredol, ac ati. Statws ymgynghorol o ran Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru.
- ✔ Rhyddid i chwilio am gyllid annibynnol trwy ymchwil a gomisiynir ac i ddefnyddio'r arian a'r adnoddau ym maes creu heddwch.

**Mae noddwyr yn cynnwys Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Cymdeithas y Cymod, Cynefin y Werin, CND Cymru, Christine Chapman AC, Michael German AC, Bethan Jenkins AC, Nick Ramsay AC.**

**I ychwanegu eich cefnogaeth chi, cysylltwch ag AHC/WPI, d/o Y Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH.**